cwlwm

# Adroddiad Prosiect Grant



2024-2025

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

coram pacey cymru

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar
Welsh early years specialists

NDNA Cymru
National Day Nurseries Association

Early Years Wales
Blynyddoedd Cynnar Cymru

**Yn 2024-2025, gafodd Cwlwm effaith sylweddol wrth gefnogi'r sector gofal plant, blynyddoedd cynnar a gwaith chwarae ar draws Cymru. Buom yn gweithio'n ddi-baid i fynd i'r afael â heriau recriwtio a chadw staff, annog mwy o bobl i ddysgu Cymraeg, a helpu llawer o leoliadau gofal plant i gynnig mwy o ofal dwyieithog. Drwy weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill, dylanwadodd Cwlwm ar bolisïau allweddol a chadw'r sector yn ymwybodol o newidiadau pwysig, tra hefyd yn darparu cefnogaeth barhaus wrth weithredu'r newidiadau hynny. Gwnaeth eu hymdrechion hefyd helpu i greu sector mwy croesawgar a chynhwysol i bob plentyn a theulu. Diolch i ymroddiad Cwlwm, mae'r gweithlu gofal plant yn gryfach, yn fwy medrus, ac wedi'i gyfarparu'n well i ddarparu gofal o ansawdd uchel i blant ledled Cymru.**



# Rhai o lwyddiannau pwysig Cwlwm yn ystod 2024-2025

## Cefnogi Cynllun 10 Mlynedd y Gweithlu:

### Mynd i'r Afael â Heriau Recriwtio a Chadw Staff

Mae Cwlwm yn chwarae rhan hanfodol yn cryfhau'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae ledled Cymru.

### Recriwtio & Chadw

- Amlygu anghenion y sector yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru
- Cefnogi recriwtio a chadw staff yn sgil prinder staff a thâl isel

### Hyrwyddo'r Sector

- Mynychu ffeiriau swyddi i godi ymwybyddiaeth o yrfaoedd gofal plant
- Hysbysebu swyddi gwag a rhannu buddion gweithio yn y sector

### Datblygu'r Gweithlu

- Hyrwyddo datblygiad proffesiynol parhaus
- Annog uwchsgilio er mwyn datblygu gweithlu medrus, cynaliadwy

**Y nod? Gweithlu gwydn sy'n deall ei werth ac yn darparu gofal a dysgu o ansawdd uchel i blant ledled Cymru.**

cwlwm

# Cyrsiau Camau: Meithrin Dwyieithrwydd Hyderus

Yn sgil cydweithrediad Cwlwm â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol mae cyrsiau hunan-astudio Camau yn ffynnu ar draws y sector. Cefnogodd Cwlwm y gwaith trwy hyrwyddo'r cyrsiau yn weithredol, gan ysbrydoli dysgwyr ac annog cyfranogiad y sector, darparu arweiniad i ddysgwyr, a helpu i ymgorffori dysgu'r Gymraeg fel ei fod yn rhan o ddatblygiad y gweithlu. Mae Cwlwm yn chwarae rôl allweddol wrth gyfrannu at weledigaeth Cymraeg 2050 drwy greu gweithlu mwy hyderus a dwyieithog ar gyfer y dyfodol.

**2024-25:**

- Cofrestrodd **688 dysgwr** ar y cwrs **Mynediad** - gan adeiladu sylfaen gref ar gyfer datblygu parhaus sgiliau iaith Gymraeg o fewn y gweithlu.
- Cofrestrodd **118 dysgwr** ar y cwrs **Sylfaen** - gan gefnogi cynnydd dysgwyr yn weithredol a chynyddu hyder yn sgiliau iaith Gymraeg y dysgwyr
- Cofrestrodd **52 dysgwr** ar y cwrs **Canolradd** - gan wneud cynnydd sylweddol wrth gynyddu hyfedredd y rhai sy'n dysgu'r Gymraeg ar draws y sector

**Beth mae'r dysgwyr yn ei ddweud:**

***Hylaw, hyd yn oed wrth weithio llawn amser!***
**– Amy, Gofalwr Plant, Gwynedd**

***Cyflwyniad gwych i'r Gymraeg – hwyl, hawdd ei ddilyn, yn helpu fy ngyrfa.***
**– Jonathan, Tiny Tots, Casnewydd**

***Bellach mae'r staff yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus!***
**– Sue, Highways, Sir y Fflint**

***Ysbrydoledig, a ffordd grêt i ddechrau dysgu Cymraeg!***
**– Megan, Playworks Libanus, Caerffili**

***Gwnaeth yr elfennau clywedol a gweledol helpu a'i wneud yn hwyl!***
**– Abigail, Interplay**

cwlwm

# Ehangu Darpariaeth Iaith Gymraeg:
# Yr Addewid Cymraeg • CYMell • Cynllun Plethu

## Yr Addewid Cymraeg

Cynllun a ddatblygwyd, cydlynwyd a hyrwyddwyd gan Cwlwm. Bu diddordeb mewn ac ymgysylltiad cynyddol yn y cynllun hwn ledled y sector. Mae lleoliadau wedi gweithio tuag at gydnabyddiaeth efydd, arian, neu aur, gan dynnu ar y cymorth gwerthfawr a ddarparwyd gan Cwlwm i helpu lleoliadau i gwrdd â gofynion y 'Cynnig Rhagweithiol'. Mae'r cynnydd cyson yn y nifer sy'n dewis yr Addewid Cymraeg yn adlewyrchu ymrwymiad cyson i annog ymarfer dwyieithog ledled y sector.

### Cynnydd 2024-25:

Ymatebwyd dysgwyr yn frwd i'r gwobrau, gyda **12 yn ennill y wobr Aur**, **25 yn ennill y wobr Arian**, a **74 yn ennill y wobr Efydd** – gan adlewyrchu datblygiad sylweddol ar draws y sector yn nhermau sgiliau.

12

25

74

**Lleisiau Ymarferwyr:**

*"Gwnaeth yr Addewid Cymraeg ein helpu i ddathlu Cymru a'i hiaith.*

**– Little Acorns**

*Rwy'n defnyddio mwy o Gymraeg ac yn teimlo'n fwy hyderus!*

**– Christine, Gofalwr Plant, Pen-y-bont**

*Mae'r plant yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol â ni – am wobr!*

**– North Cornelly Playgroup**

*Rydym yn falch o gefnogi Cymraeg 2050 – ac mae wedi dylanwadu ar ein bywydau personol hefyd."*

**– Two Tribes ASC, Sir Fynwy**

cwlwm

# CYMell:

Ariannwyd CYMell gan Lywodraeth Cymru i gefnogi twf a chynaliadwyedd gofal plant allysgol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ledled Cymru.

- **Mynd i'r afael â diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg sy'n gofrestredig ag AGC**
- **Cynyddu defnydd y Gymraeg tu hwnt i'r dosbarth**
- **Cefnogi Cymraeg 2050**

## Cyflawniadau CYMell:

- **Cefnogaeth Cofrestru ag AGC – 16** lleoliad wedi cofrestru/ehangu i ddarparu Gofal Dydd Allysgol (26 Prosiect Hyd yn Hyn (PHyH)). Dyfarnwyd 26 grant cofrestru (£1000) (47 PHyH)
- **Dyfarnwyd 4 Grant Cynaladwyedd (£2,500)**
- **Hyfforddiant Gwaith Chwarae (ariannir & dwyieithog)** – dyfarnwyd **98** cymhwyster (86 PHyH), talwyd **71** bwrsariaeth i ganiatáu i staff fynychu hyfforddiant (176 PHyH)
- Talwyd **3 Grant Newid Iaith** (£4000): mae un lleoliad wedi newid ei iaith weithredol i'r Gymraeg (3 PHyH)

> ***Tiwtoriaid anhygoel – cefnogol, clir a dwyieithog!***

> ***Dysgais gymaint diolch i'r ddarpariaeth ddwyieithog.***

> ***Pwysig iawn i mi fedru siarad Cymraeg yn ystod yr hyfforddiant.***

> ***Hwn oedd un o'r hybiau mwyaf i'm hyder. Dewisais y Gymraeg i roi i mi rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith wrth sgwrsio. Rwy wedi ceisio rhyngweithio, ac wrth fy modd â'r cyfle.***



# Cynllun Plethu:

Mae'r prosiect hwn yn cefnogi lleoliadau i newid yn llwyr i fod yn ddarpariaeth sy'n trochi yn y Gymraeg, ac mae wedi helpu i greu mwy o ofodau gofalu plant yn y Gymraeg ar lefel leol. Gyda chefnogaeth benodol ac anogaeth barhaus, mae lleoliadau wedi gwneud newidiadau i sut maen nhw'n gweithio, diwygio eu polisïau, ac wedi cynnwys teuluoedd a'r gymuned ehangach yn rhan o'r broses.

- **Cefnogir 3 lleoliad**

# Eiriol dros y Sector: Codi ein Lleisiau



## Llywio polisi:

Mae ymdrechion parhaus Cwlwm mewn meysydd amrywiol yn cael effaith sylweddol ar y sector gofal plant, gan ddod â budd mewn sawl ffordd:

- **Cynrychiolaeth:** Trwy gynrychioli llais y sector, mae Cwlwm yn helpu i siapio polisïau sy'n cefnogi darparwyr, plant, a theuluoedd.
- **Effaith:** Mae ein cyfraniadau yn dylanwadu ar ddeddfwriaeth a rheoliadau, gan hyrwyddo amgylchedd cynaliadwy a chefnogol ar gyfer gofal plant.
- **Rhannu Gwybodaeth:** Mae ymchwil a chysylltiad yn hysbysu Cwlwm o newidiadau yn y sector, gan ein galluogi i drosglwyddo diweddariadau a chyfarwyddiadau yn amserol i ddarparwyr.
- **Cydweithio:** Mae gweithio'n agos gyda gwneuthurwyr polisi a rhanddeiliaid yn arwain at atebion mwy perthnasol ac ymarferol ar gyfer y sector.
- **Cydlyniad Polisi:** Mae Cwlwm yn helpu i sicrhau bod polisïau sy'n dod i'r amlwg yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a'r nodau rhai sy'n darparu gofal ac addysg yn y blynyddoedd cynnar.

**Mae Cwlwm yn creu dyfodol cryfach a thecach ar gyfer gofal plant ledled Cymru.**

## Gwreiddio Gwrth-hiliaeth yng Ngofal Plant

Mae Cwlwm yn falch o gefnogi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru 2030. Trwy wreiddio egwyddorion gwrth-hiliaeth yn ei waith, mae Cwlwm yn helpu i greu lleoedd sy'n gynhwysol, teg, ac yn groesawgar i bob un plentyn a theulu, waeth beth fo'u cefndir.

### Ein Heffaith:

- **Hyfforddiant Gwrth-hiliaeth** – Darparwyd sesiynau ymarferol ar gyfer ymarferwyr, arweinwyr, a rheolwyr, gan eu grymuso i arwain ymarfer gwrth-hiliol yn eu lleoliadau yn hyderus.
- **Partneriaeth â DARPL** – Hyfforddiant ac arweiniad ar y cyd, wedi seilio ar brofiadau byw ac ymarfer gorau.
- **Adnoddau Dwyieithog** – Deunyddiau cymorth hygyrch ar gyfer lleoliadau ledled Cymru.
- **Codi Ymwybyddiaeth** – Hyrwyddo ymarfer cynhwysol trwy ddigwyddiadau, gweminarau, ac ymgyrchoedd.
- **Amgylcheddau Cynhwysol** – Cynorthwyo i greu gofodau sy'n estyn croeso i bob plentyn a phob teulu.

**Mae Cwlwm yn ymrwymo i ddyfodol lle mae pob plentyn yn teimlo ei fod yn cael ei weld, ei glywed, a'i werthfawrogi.**

cwlwm

## Cefnogi'r diweddariad i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC) ar gyfer gofal plant a reoleiddir:

Chwaraeodd Cwlwm rôl allweddol wrth helpu'r sector gofal plant i ddeall a chymhwyso'r SGC newydd ledled Cymru.

### Ein Cyfraniad:

- **Grwpiau Ymgynghorol** – Helpu llunio newidiadau ar gymarebau, cymwysterau a mwy.
- **Cyfathrebu Clir** – Rhannu diweddariadau yn gyflym gyda'r sector.
- **Cymorth Ymarferol** – Darparu hyfforddiant ac arweiniad ar Ddiogelu, Cymorth Cyntaf, a mwy.
- **Adborth yn llifo'r ddwy ffordd** – Casglwyd barn y sector er mwyn hysbysu Llywodraeth Cymru.

**Cymorth i ddarparwyr i aros yn ymwybodol, hyderus, a barod am newid.**

## Cadw'r Sector yn Gyfarwydd ac wedi'i Gysylltu:

Mae Cwlwm yn cadw darparwyr gofal plant, blynyddoedd cynnar, a gwaith chwarae ledled Cymru yn gyfredol ac yn eu cefnogi.

### Sut rydyn ni'n rhannu gwybodaeth:

- **Cylchlythyron a Bwletinau** – Diweddariadau rheolaidd ar faterion allweddol.
- **Cyfryngau Cymdeithasol** – Postiadau amserol ar newyddion, arweiniad a chyfleoedd.
- **Cyswllt Uniongyrchol** – Diweddariadau yn cael eu rhannu drwy ein sefydliadau aelod.
- **Weminarau a Digwyddiadau** – Hyfforddiant a sesiynau ymarfer gorau.
- **Partneriaethau** – Gweithio gydag eraill i gadw negeseuon yn glir ac yn berthnasol.

**Cefnogi'r sector i gadw mewn cysylltiad, ac i fod yn hyderus, ac yn ymwybodol.**



cwlwm



# Cryfhau Perthnasoedd Drwy Gydweithio Strategol:

**Mae Cwlwm yn dod â'r sector gofal plant, blynyddoedd cynnar, a gwaith chwarae ynghyd, gan sicrhau bod pawb yn elwa o'r wybodaeth a'r cymorth a rennir.**

## Ein Dull Cydweithredol:

- **Gweithio gyda Llywodraeth a Chyrff Cenedlaethol** – Llywodraeth Cymru, Aelodau'r Senedd, Awdurdodau Lleol, Gofal Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Busnes Cymru
- **Cefnogi Ymgyrchoedd y Sector** – Gofalwn Cymru, Teulu Cymru & mwy
- **Cyswllt â Darparwyr a Chymunedau** – Cysylltiadau cryf gyda lleoliadau lleol, partneriaid cymunedol a sefydliadau trydydd sector eraill drwy gyfranogiad yn Grwpiau Croesbleidiol

## Pam ei fod yn bwysig:

- Rydym yn deall anghenion y sector ac yn siarad ar ran darparwyr
- Rydym yn rhannu adnoddau ymarferol a diweddariadau
- Rydym yn meithrin ymddiriedaeth a chefnogi gwelliannau ledled Cymru

**Gyda'n gilydd, rydym yn siapio sector cryfach, mwy cysylltiedig.**

# Cefnogi Cynaliadwyedd Ariannol:

Mae Cwlwm yn cefnogi darparwyr gofal plant a gwaith chwarae i aros yn gynaliadwy yn ariannol, cael mynediad at gyllid, a chryfhau cynaliadwyedd tymor hir.

## Sut Rydym yn Gwneud Hyn:

### Hyrwyddo Grantiau & Chefnogaeth

- Adnabod a rhannu cyfleoedd ariannu amrywiol gyda'r **darpariaethau** e.e. Plant Mewn Angen BBC, Sefydliad Asda, Sefydliad Moondance, Cronfa Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol, Cronfa Gymunedol Co-op, Tesco Stronger Starts, Cronfa Screwfix, Cronfeydd Cymunedol, Grantiau Cyfalaf a Chynaliadwyedd Awdurdodau Lleol.
- Gweithio fel **sefydliadau ymbarél** i adnabod a sicrhau mynediad at gyllid er mwyn cefnogi'r sector e.e. Lleoedd a Gynorthwyir Sefydliad Moondance, Cronfa'r Loteri Genedlaethol i wella cynaliadwyedd a darpariaeth cyllid, cynllunio ariannol, marchnata, a chefnogi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth, a'r Cynnig Gofal Plant
- Cefnogi Awdurdodau Lleol gyda chymeradwyo grantiau drwy gyfarfodydd banel, a hyrwyddo grantiau Awdurdod Lleol i aelodau.
- Annog darparwyr i wneud cais am grantiau a ffynonellau cyllid priodol.
- Darparu cymorth a chanllawiau angenrheidiol trwy gydol y broses o ymgeisio am grantiau.
- Adeiladu hyder darparwyr wrth weinyddu a rheoli cyllid grant.
- Cefnogi ymdrechion i wella cynaliadwyedd, staffio, ansawdd y gofal, ac adnoddau drwy ddefnyddio grantiau'n effeithiol.
- Cynnal arolygon i ddeall cyflwr y sector o ran cynaliadwyedd ariannol, a darparu cefnogaeth bersonol a strategol yn unol â'r canfyddiadau.





*“Gwnaeth y cynllun grantiau bach wahaniaeth enfawr — gan ein helpu i wella ein hamgylchedd ac i fuddsoddi mewn offer chwarae y mae’r plant yn ei garu. Hebddo, ni fyddai llawer o’r diweddariadau hyn wedi bod yn bosibl.”*

**– Fun Foundations Day Nursery, Dyffryn Morgannwg**

*“Mae’r grant Moondance wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i’n bywydau, gan gynnig sefydlogrwydd a synnwyr o normalrwydd  mewn cyfnod cynhyrfus.”*

*“Mae (Plentyn) yn derbyn gofal maeth a bu farw ei mam fiolegol yn ddiweddar. Mae gallu cynnig yr opsiwn chwarae hwn yn gyfle iddi chwarae ac anghofio pwysau’r byd. Mae ganddi ADHD ac Oedi Datblygiadol, felly mae (clwb) wedi gweithio rhyfeddodau gyda’i datblygiad, Diolch o galon.”*

**– Buddiolwr Grant Lleoedd a Gynorthwyir Cronfa Moondance**

*“Rwy’n ddiolchgar iawn am y grant. Fel darparwr gofal plant mae’n golygu y gallaf roi cyfleoedd i’r plant na fyddwn fel arall yn gallu fforddio eu darparu fel arall.”*

**– Aelod Coram PACEY sy’n derbyn cyllid Moondance**

*“Mae’r clwb yn brysurach nag erioed, yn enwedig ar Ddydd Mawrth a Dydd Mercher. Gwnaeth y grant ein galluogi i dalu’r staff drwy’r gwyliau fel y gallem baratoi’r holl ddogfennau cysylltiedig megis polisïau, datganiad o ddiben ac ati. Diolch”*

**– Ysgol Feithrin Pwllheli**

cwlwm

## Cefnogaeth Cyllid Ymarferol

- Darparwyd gwiriadau iechyd busnes, gan helpu aelodau i adnabod risgiau a chreu cynlluniau gweithredu ar gyfer gwelliant.
- Darparwyd templedi cynllun busnes i helpu darparwyr i gryfhau a rheoli eu lleoliadau yn hyderus.
- Grymuswyd trysoryddion gyda chanllaw ariannu clir, hawdd ei ddefnyddio sydd ar gael ar-lein.
- Anogwyd lleoliadau i hyrwyddo'r cymorth ariannol sydd ar gael i rieni trwy rannu adnoddau.
- Cefnogwyd lleoliadau gyda sgiliau marchnata, blogiau a phecynnau adnodd.
- Arweiniwyd pwyllgorau drwy newidiadau cyllido, cynnydd mewn costau cyflog a chynllunio cynaliadwyedd.
- Grymuswyd darparwyr drwy declynnau llif arian a rhybuddion grant amserol i'w cynorthwyo wrth wneud penderfyniadau.
- Cefnogwyd sefydliadau i gydymffurfio gyda chefnogaeth 1:1 gan arbenigwr ar gyfrifon y Comisiwn Elusennau.
- Cynigwyd hyfforddiant ar adroddiadau blynyddol ac adroddiadau ariannol ac felly cynyddu hyder y darparwyr wrth adrodd.
- Cyfeiriwyd darparwyr i Busnes Cymru am gefnogaeth wrth ddatblygu'r cynlluniau busnes sydd eu hangen ar gyfer rhai ceisiadau grant awdurdod lleol.
- Partneriaeth gyda Busnes Cymru i gyflwyno 3 gweminar byr - *Statws Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth*, *Marchnata a Thyfu Eich Busnes*, *Tendro ac Ymrwymiadau*, gan gynorthwyo darparwyr i dyfu, addasu, a pharatoi at Dechrau'n Deg, Addysg Gynnar, neu ddatblygu'r busnes.

Dywedodd Lee Stephenson o Busnes Cymru:

***Mae'n wych y gallwn weithio gyda diwydiant penodol, mae hyn yn ein helpu ni yn Busnes Cymru i adeiladu ein rhwydwaith. Mae'n wych clywed pa heriau a chyfleoedd sy'n digwydd yn y sector gofal plant. Edrychwn ymlaen at gydweithrediad pellach yn y dyfodol.***



## Cefnogi Llywodraeth Cymru gyda'r Cynnig Gofal Plant

- Rhannu diweddariadau trwy newyddlenni, cyfryngau cymdeithasol, a chyfathrebu uniongyrchol.
- Hyrwyddo arolygon Llywodraeth Cymru e.e. Incwm a Gwariant ar gyfer Darparwyr Gofal Plant.
- Bwydo barn y sector, gan alw am arweiniad cliriach ar y tâl y gellir ei godi o dan y Cynnig Gofal Plant.
- Ymgysylltu â darparwyr trwy fforymau, sesiynau C&A, a gweinarau.
- Cyfeirio lleoliadau at arweiniad perthnasol, offer cymhwysedd, a chymorth ar geisiadau.
- Hyrwyddo straeon ac astudiaethau achos go iawn i dynnu sylw at fanteision y cynnig.



- Gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i gefnogi negesu cyson.
- Hyrwyddo gan dargedu ardaloedd lle mae llai o bobl yn manteisio ar y cynnig neu mae'r ymwybyddiaeth yn isel.

**Helpu darparwyr i sicrhau cyllid, cynllunio at y dyfodol ac adeiladu busnesau gofal plant cryfach, mwy cynaliadwy.**

cwlwm

# Cefnogi Llywodraeth Cymru gyda Datblygiadau Deddfwriaethol:

Mae Cwlwm yn cefnogi Llywodraeth Cymru gyda datblygiadau deddfwriaethol trwy ddarparu mewnwelediad a thystiolaeth gan y sector, ac ymatebion cydlynol i sicrhau bod newidiadau polisi a rheoleiddiol yn adlewyrchu anghenion darparwyr gofal plant, chwarae, a blynyddoedd cynnar ledled Cymru.

### NSafonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC)

- Darparwyd mewnbwn ar y cyd i adolygiad SGC, gan sicrhau ei fod yn adlewyrchu realiti gwasanaethau gofal plant a gwaith chwarae.
- Cymrodd Cwlwm rhan mewn grwpiau cynghori allweddol (e.e. cymarebau, cymwysterau, strwythur).
- Cefnogodd Cwlwm ddealltwriaeth y sector drwy arweiniad, cylchlythyrau, a hyfforddiant.
- Casglwyd adborth gan ddarparwyr a rhannu'r mewnwelediadau gyda Llywodraeth Cymru.



### Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010

- Darparwyd mewnbwn cydweithredol i'r Gorchymyn Eithriadau trwy herio a phrofi cynigion, tynnu sylw at ganlyniadau annisgwyl posibl, siapio cwestiynau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ac ystyried Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol (a modelau eraill) ar gyfer darparwyr gofal plant, chwarae a gweithgareddau.
- Cynghorwyd Llywodraeth Cymru trwy gyfranogi'n weithredol mewn grwpiau cynghorol, mynychu cyfarfodydd a darparu adborth ar ddogfennau allweddol gan gynnwys opsiynau ar gyfer cynllun cymeradwyo gwirfoddol.
- Cefnogodd Cwlwm Llywodraeth Cymru trwy rannu mewnwelediadau ar sut mae'r Gorchymyn Eithriadau a SGC yn gweithio mewn ymarfer, gan hysbysu'r adolygiad a newidiadau posibl.

### Adolygiad Gweinidogol o Chwarae

- Cyfrannu at yr Adolygiad Gweinidogol o Chwarae, gan eiriol i chwarae cael ei ymgorffori ym mhob lleoliad blynyddoedd cynnar.
- Sicrhau fod egwyddorion gwaith chwarae wedi'u hystyried yng nghyd-destun ehangach CDGPC.
- Amlygu pwysigrwydd cyfleoedd chwarae cynhwysol a hygyrch ar draws cymunedau gwahanol, a'r cysylltiad rhwng chwarae, dysgu a gofal plant.

## Adolygiad Annibynnol ar Ofal Plant

- Cefnogi Llywodraeth Cymru i weithredu argymhellion yr adolygiad.
- Parhau i dynnu sylw at heriau recriwtio, cadw a chofrestru a phwysleisio meysydd datblygu allweddol sydd eu hangen i sicrhau effaith gadarnhaol.
- Gweithio i gefnogi datblygu cynllun gweithredu i symud ymlaen â'r gwaith.
- Gweithio'n gydweithredol gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol.

## Cyfraniadau Deddfwriaethol a Pholisi Eraill Perthnasol

- Hyrwyddwyd cydlyniant rhwng Dechrau'n Deg, Dysgu Sylfaen, a gofal plant drwy annog system gyllid cysylltiedig.
- Cefnogwyd fframwaith polisi CDGPC Llywodraeth Cymru trwy ddigwyddiadau'r sector a diweddariadau rheolaidd i godi ymwybyddiaeth.
- **Datblygu'r gweithlu a chymwysterau** – cymryd rhan yn adolygiad cymwysterau Lefel 2–5 i sicrhau hygyrchedd, ansawdd a darpariaeth ddwyieithog, a chyfrannu at lunio Cynllun Datblygu Gweithlu Cymru Gyfan.
- **Cydraddoldeb a Chynwysoldeb** – eiriol dros bolisïau sydd yn lleihau rhwystrau mynediad i gymunedau ethnig lleiafrifol, plant anabl, a'r rhai mewn tlodi a chefnogi gwaith o amgylch Cymru Wrth-hiliol a chynwysoldeb ym maes gofal plant.
- **Hyrwyddo'r Gymraeg** – Mewnosod amcanion iaith Gymraeg yn y trafodaethau deddfwriaethol a pholisi, a hyrwyddo llwybrau ar gyfer gofal plant a lleoliadau chwarae cyfrwng Cymraeg, gan helpu Llywodraeth Cymru i gyrraedd nodau Cymraeg 2050.

**Ar y cyd â Llywodraeth Cymru, rydym yn creu polisïau sy'n gweithio i blant, teuluoedd a darparwyr.**



# MANYLION Y PROSIECT:

**Enw'r Sefydliad Arweiniol:**

Mudiad Meithrin (MM)

Manylion Cyswllt y Sefydliad Arweiniol:

Dr Gwenllian Lansdown Davies, Chief Executive, Y Ganolfan Integredig, Boulevard de Saint Brieuc, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1PD

**Enwau'r Partneriaid:**

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs (CPCKC)

Coram PACEY Cymru (PACEY Cymru gynt)

Blynyddoedd Cynnar Cymru (BCC)

Mudiad Meithrin (MM)

National Day Nurseries Association (NDNA Cymru)

**Prif Grant Cwlwm**

**£1,819,000**

Cyllid i ddarparu gwasanaeth dwyieithog, integredig sy'n cefnogi'r canlyniadau gorau i blant a theuluoedd ledled Cymru drwy 'system-gyfan' Llywodraeth Cymru.

**Gweithgarwch Cymraeg 2050**

**£190,000**

Cyllid i hyrwyddo sgiliau iaith Gymraeg o fewn y gweithlu.

**Cyllid ychwanegol**

**£1,706,000**

Cyllid ar gyfer grantiau, cefnogi aelodau a datblygu staff er mwyn gwella ansawdd a chynaladwyedd gofal plant.

**Cyllid ychwanegol**

**£400,000**

Cyllid i ehangu darpariaeth gofal plant a gweithgareddau blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg.

**Mae partneriaid Cwlwm yn awyddus i ddiolch i swyddogion Llywodraeth Cymru am eu cefnogaeth, eu cydweithrediad, a'u cyngor yn y flwyddyn gan nodi bod gweithio mewn partneriaeth yn rhoi'r canlyniadau gorau posib ar gyfer plant a'u teuluoedd (trwy'r sector).**